



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Eder
Ffordd y Rhos
Edern
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8YW**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© **Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2014

Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar gyrion pentref Edern mewn ardal wledig, tua thair milltir o Nefyn, Gwynedd. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o bentrefi Edern a Dinas a'r ardal wledig gyfagos.

Mae 70 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys naw o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn dri dosbarth oed cymysg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae oddeutu 91% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un o'r disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n llawer is na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 15% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Edern yn 2013-2014 yw £4,002. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Edern yn safle 57 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2007.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Mai 2008.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- dealltwriaeth gadarn gan ddisgyblion o sut i gadw'n iach;
- llawer o'r disgyblion yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n gytûn;
- ymglymiad cryf disgyblion i'r ysgol ac maent yn ymddwyn yn gyfrifol;
- cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ymchwiliol;
- trefniadau asesu cadarn ym mhob dosbarth; a'r
- ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol a bod ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff;
- dealltwriaeth gadarn gan y llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella;
- hunanarfarnu wedi arwain at welliannau clir mewn safonau a darpariaeth;
- cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o bartneriaid strategol yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion;
- rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion eraill yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

A1 Cynyddu gallu'r disgyblion i arfarnu a gwella'u gwaith

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau marcio athrawon

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae bron pob disgybl ar draws yr ystod oedran yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn ystod sesiynau dysgu, maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn fedrus wrth gydgyllunio a datrys problemau ymarferol, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio yn y Cyfnod Sylfaen i ba gynwysyddion yw'r rhai gorau ar gyfer dal swm penodol o basta. Mae disgyblion o bob oedran yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn ymagweddu'n gadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ar oedolion a disgyblion eraill ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddi-ddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd Blwyddyn 1, mae llawer wedi dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ar eraill ac yn cyfrannu'n bwrpasol, ac mewn iaith raenus, yn ystod trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn blwyddyn 5, mae llawer yn ysgrifennu gyda diben amlwg ar draws y cwricwlwm gan ddangos ystyriaeth dda o'r darlennydd. Maent gan mwyaf yn treiglo'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth dda o ansoddeiriau ac ymadroddion.

Mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r ieithwedd fathemategol gywir wrth siarad am eu syniadau ac yn hyderus iawn wrth ddarllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100. Maent yn defnyddio unedau safonol gyda manwl gywirdeb addas i fesur gwrthrychau o wahanol feintiau ac maent yn hyderus iawn wrth ddisgrifio priodoleddau siapiau solet a rhai gwastad. Mae gallu'r disgyblion hyn i drosglwyddo eu medrau mathemategol i weithgareddau chwarae a datrys problemau yn yr ystafell dosbarth yn gadarn iawn.

Mae medrau rhifedd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol, er enghraifft wrth ddarganfod a yw arwynebedd cynhwysydd yn effeithio ar gyflymder yw anweddiad,

mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrediad eang o fesurau safonol gyda manwl gywirdeb. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gronfeydd data ar gyfer cofnodi a dehongli data. Ar draws y cyfnod allweddol, mae gallu bron pob disgybl i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Niferoedd bach o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ac felly, nid yw'n briodol cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau cenedlaethol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 50% uwch mewn llythrennedd ac yn 50% is mewn a mathemateg. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deiliant 6 yn y 25% uchaf mewn llythrennedd ac yn 50% is mewn mathemateg.

Mae perfformiad cyfnod allweddol 2 ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2009 i 2013. Bu perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn bennaf yn y 50% uwch tra bu Saesneg yn y 50% is.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

Lles: Da

Mae pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Er bod disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi dechrau arfarnu eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella, mae'r elfen hon yn parhau yn ei dyddiau cynnar o ddatblygiad.

O oedran cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus.

Mae gan ddisgyblion ymroddiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft drwy ofalu am blant ieuengach ar y buarth a bod yn aelodau o wahanol bwyllgorau. Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn gydwybodol ac mae'n ddylanwad cryf ar fywyd a chwricwlwm yr ysgol.

Mae athrawon ym mhob dosbarth yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion leisio barn a chyfrannu i gynnwys y cwricwlwm.

Mae'r arfer o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y pentref yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w cymuned leol yn sylweddol.

Mae presenoldeb gan mwyaf yn dda. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf yn ystod tair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sy'n bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ac yn arwain at safonau cyflawniad da. Mae'r cwricwlwm yn bodloni'r holl ofynion statudol, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, yn llawn. Mae gweithgareddau mentergarwch, sy'n cynnwys plannu, tyfu ac yna gwerthu llysiau yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae ymweliadau, siaradwyr gwadd, a chyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau'r gymuned leol, megis eisteddfodau, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol.

Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr sydd ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn cyfrannu'n gryf tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth a thraddodiadau Cymru. Mae'r elfen hon yn cael ei hatgyfnerthu ymhellach drwy ddilyn prosiectau ysgol gyfan ar waith arlunwyr cyfoes Cymreig, megis Kyffin Williams a Luned Rhys.

Mae gwersi, ymweliadau addysgol ac arferion ailgylchu'r ysgol yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at gynyddu dealltwriaeth a gwerthoedd disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy. Trwy gefnogi achosion da, er enghraifft noddï merch mewn pentref tlawd ym Mrasil, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n galluogi'r disgyblion i ddod yn fwy ymwybodol o'u rôl mewn cymdeithas a'r byd ehangach.

Addysgu: Da

Mae athrawon yn defnyddio amrediad effeithiol o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r gweithgareddau a ddarperir, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau dysgu, ac yn arbennig eu medrau ymchwiliol. Mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i sicrhau ymglymiad disgyblion i'w dysgu.

Mae'r berthynas waith agos sydd rhwng y staff a disgyblion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol sy'n hybu dysgu effeithiol. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, llwydda'r athrawon a'r cymorthyddion i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n effeithiol.

Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer asesu dysgu a hefyd asesu ar gyfer dysgu. Mae'r arfer o bennu targedau gwelliant i bob disgybl, ac o gynnwys y disgyblion eu hunain yn y drafodaeth, yn hyrwyddo deilliannau dysgu da. Caiff cynnydd pob disgybl ei gofnodi'n rheolaidd a defnyddir gwybodaeth asesu yn bwrpasol ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu.

Trwy farcio pwrpasol, caiff disgyblion arweiniad clir ynghylch safon eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i'w wella. Fodd bynnag, dim ond yn achlysurol mae gofyn iddynt ymateb i sylwadau marcio athrawon ac mae hyn yn gwneud y broses yn llai effeithiol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus ac iddi ethos cartrefol, gofalgar ac mae ganddi bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr a phriodol. Mae'r staff yn creu amgylchedd diogel lle mae iechyd a lles disgyblion yn flaenoriaeth uchel. Maent yn ymateb yn effeithiol i unrhyw achosion honedig o aflonyddu neu fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hanfodion bwyta'n iach, ffitrwydd ac ymarfer corff rheolaidd yn cael eu meithrin yn effeithiol drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ddulliau ar gyfer adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn effeithiol ac yn arwain at gynnydd cyson mewn dysgu a safonau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol manwl sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn manteisio ar gydweithrediad gwasanaethau megis seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol yr awdurdod addysg. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl ac oedolyn, beth bynnag eu cefndir a'u cryfderau. Mae amgylchedd dysgu ysgogol ynghyd â'r arddangosfeydd deniadol, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol. Mae'r arfer o arddangos ffotograffau a thystysgrifau mewn mannau cyhoeddus yn rhoi bri ar lwyddiannau'r disgyblion ac yn cydnabod eu cyfraniad i ffyniant yr ysgol.

Mae'r adeiladau a thiroedd yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac oedolion ac yn cael eu cynnal yn dda. Caiff yr ardal tu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ynghyd â buarth chwarae a chae'r ysgol, eu defnyddio'n bwrpasol. Mae'r holl safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac oedolion.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae wedi sefydlu systemau cyfathrebu clir ac ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at bennu cyfeiriad strategol ac ysgol hunanfeirniadol sy'n datblygu'n barhaus. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda gan staff sydd yn rhannu'r un weledigaeth a gwerthoedd wrth gefnogi'r ymdrechion i wella safonau ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r pennaeth a'r staff yn dadansoddi data perthnasol yn fanwl iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer adnabod cyflawniadau disgyblion unigol ynghyd â grwpiau penodol. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth addas sy'n cyfarfod yn effeithiol ag anghenion y disgyblion o'r holl ystod gallu.

Mae'r parodrwydd yr ysgol i ymgymryd â blaengareddau newydd megis asesu ar gyfer dysgu, ac i roi sylw i ofynion blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn sicrhau ei bod yn datblygu'n barhaus ac yn gwella dysgu ac addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau a chyflawniadau disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth dda hefyd am flaenoriaethau'r ysgol ac maent yn gwirio effeithiolrwydd yr addysgu wrth ymweld â'r ysgol i fonitro gwersi a chynnydd disgyblion. Maent yn barod i herio'r ysgol ynglŷn â safonau a'r dulliau addysgu. Mae'r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae hunanarfarnu yn rhan allweddol o weithdrefnau'r ysgol ac mae gan y staff a rheolwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a mannau lle mae angen gwelliant. Mae trefniadau hunan arfarnu yn fanwl ac wedi eu sefydlu ar adnabod cyraeddiadau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a data perthnasol i adnabod cynnydd a nodi agweddau i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd disgyblion, deilliannau arsylwi gwersi, craffu ar waith ac adroddiadau allanol. Caiff llais y disgyblion a'r rhieni le pwysig yn yr hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch dysgu, addysgu a safonau. Mae gan bob aelod o staff a llywodraethwyr berchnogaeth dros yr adroddiad.

Mae'r staff yn ymateb yn fwriadus i'r blaenoriaethau, megis anghenion datblygiad proffesiynol, a ddaw i'r amlwg trwy hunanarfarnu. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys nifer rhesymol o flaenoriaethau clir a phwrpasol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n adolygu cynnydd yn erbyn targedau blynyddoedd blaenorol ac yn nodi materion pellach sydd angen gweithredu arnynt. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys manylion perthnasol am ddyraniad cyllid ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Mae'r ysgol yn gallu dangos bod hunanarfarnu wedi arwain at sicrhau cynnydd mesuradwy mewn nifer o feysydd, megis gwella cyfraddau presenoldeb a chodi safonau llythrennedd a rhifedd.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o bartneriaid strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas gref rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn rhagweithiol iawn wrth gywain barn rhieni ynghylch gwahanol agweddau ar addysg eu plant ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryder neu awgrym a wneir ganddynt. Er enghraifft, wedi i rieni ddatgan eu hansicrwydd ynglŷn â helpu'u plant gyda'u gwaith rhifedd, lluniodd yr ysgol ganllawiau defnyddiol iawn ar eu cyfer.

Mae'r cydweithio agos rhwng yr ysgol â chylch meithrin y pentref a hefyd gydag ysgol gyfagos yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n ddidrafferth o'r naill sefydliad i'r llall ac yn ymgartrefu'n fuan wrth gychwyn yn yr ysgol.

Mae'r trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cydweithio agos gydag ysgolion lleol wedi arwain at drefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn y clwstwr ac mae hyn wedi arwain at baratoi deunyddiau buddiol iawn ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Yn sgil hyn, mae nifer o ysgolion lleol wedi ymweld â'r ysgol er mwyn arsylwi arferion dysgu ac addysgu da.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r gymuned leol ar brosiectiau megis cynllunio a cheu llwybr rhwng Edern â phentref arall cyfagos.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau a diddordebau athrawon a chymorthyddion dysgu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r arfer o ddefnyddio arbenigedd cymhorthydd lefel uwch i addysgu cerddoriaeth ac addysg grefyddol ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, gyda hyn yn cyfrannu'n gryf at wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol.

Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Enghreifftiau o hyn yw'r rhannu arferion da ar agweddau ar rifedd yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod. Mae hyn yn sicrhau bod darpariaeth briodol i gyfarfod â'r cynyddol ddisgwyliedig yn niferoedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol agos.

O ystyried y deilliannau da a chynnydd parhaus disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Niferoedd bach o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ac, felly, nid yw'n briodol cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau cenedlaethol.

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 mewn llythrennedd, mathemateg a datblygiad personol yn debyg i gyfartaledd ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni ar ddeilliant 6 yn sylweddol uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn llythrennedd ac ychydig yn is mewn mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef deilliant 5 neu uwch yn y ddau faes dysgu, ychydig yn uwch na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 50% uwch mewn llythrennedd ac yn 50% is mewn a mathemateg. Roedd perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn y 25% uchaf mewn llythrennedd a datblygiad personol a chymdeithasol ac yn y 50% is mewn mathemateg.

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel 4 ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod Allweddol 2 yn 2013 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd y gyfran yn cyflawni ar lefel 5 ychydig yn uwch na pherfformiad y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y pedwar pwnc. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y pynciau craidd ychydig yn uwch na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, yn y 50% uwch mewn Cymraeg ac yn y 50% is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y lefel 5 uwch yn y 25% uchaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch mewn Saesneg.

Mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2009 i 2012. Bu perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn bennaf yn y 50% uwch tra bu Saesneg yn y 50% is.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal, ac ar adegau yn well, na gweddill y garfan.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	36	36 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	36	36 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	36	36 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		96%	4%	
The school teaches me how to keep healthy	36	36 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	36	36 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	35	34 97%	1 3%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	36	36 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	36	36 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	36	36 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	36	35 97%	1 3%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	33	33 100%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	34	34 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	33	28 85%	5 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	33	31 94%	2 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	33	31 94%	2 6%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	33	30 91%	3 9%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	33	24 73%	9 27%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	33	28 85%	5 15%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	33	29 88%	4 12%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	33	24 73%	9 27%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	33	26 79%	7 21%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	33	27 82%	6 18%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	33	29 88%	4 12%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	30	23 77%	7 23%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	33	24 73%	9 27%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	33	28 85%	5 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	33	22 67%	9 27%	1 3%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	32	26 81%	6 19%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	24	16 67%	7 29%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	33	28 85%	5 15%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	33	28 85%	5 15%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		60%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

William Williams	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Gwyn Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Geraint Evans	Enwebai

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.